



## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Mercher, 8 Mai 2019 am 10.00 am ym Bloc F, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Hopkins    Y Cyngorydd R Yeo  
Y Cyngorydd L Jones

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant  
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant  
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant  
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion  
Mrs. J Allen, Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifainc  
Ms M Meredith, Rheolwraig y Gwasanaethau Preswyl  
Ms R Ceshion, Rheolwr Cyflawni Gofal Plant  
Ms K Edmonds-Daniel (RCT Forum)

#### **54      Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### **55      Cofnodion**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 20 Mawrth 2019 yn rhai cywir.

#### **56      Lleisiau o Ofal - Fforwm RhCT**

Rhoddodd Ms K Daniels, cynrychiolydd Lleisiau o Ofal Cymru, adroddiad cynnydd Fforwm RhCT i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer y cyfnod Hydref 2018 – Mawrth 2019.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod nifer y bobl ifainc a oedd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth wedi cynyddu yn dilyn nifer o achlysuron galw heibio. Roedd hefyd yn gyffrous clywed bod dau berson ifanc o Fforwm RhCT wedi cael swyddi ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ers y diweddariad diwethaf a ddarparwyd i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Siaradodd y cynrychiolydd am ystod eang o achlysuron a gweithgareddau a gynhaliwyd gan gyfranogwyr yn Fforwm RhCT, gan gynnwys Lansiad NSPCC, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019. Eglurwyd bod achlysuron o'r fath, sy'n caniatáu

i'r bobl ifainc ymgynghori â gweithwyr proffesiynol, yn amhrisiadwy gan fod y bobl ifainc yn cael eu hannog i ddefnyddio'u llais yn ogystal â chael adborth adeiladol.

Mewn perthynas â'r cwrs Lles Emosiynol ac Ymwybyddiaeth Ofalgar sy'n cael ei redeg gan yr elusen Gofal y cymerodd chwe pherson ifanc ran ynddo yn ystod mis Mawrth 2019, roedd y cynrychiolydd yn credu ei bod yn bwysig siarad am y deilliannau 'meddal' a gyflawnodd y bobl ifainc. Cydnabu'r Aelodau nad yw'r deilliannau 'meddal' yn cael eu hamlygu mewn adroddiadau yn aml ond eu bod yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau plant a phobl ifainc. Roedd yn braf dysgu bod y cyfranogwyr wedi darparu adborth ac argymhellion ynghylch y gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael, sydd yn eu tro wedi cynyddu eu hyder a'u hunan-barch eu hunain.

Cafwyd trafodaethau ynghylch prosiect newydd cyffrous rhwng gwahanol genedlaethau, wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru ac ar y cyd ag Age Connect, i leihau unigedd pobl ifainc sy'n gadael gofal a phobl hŷn. Dysgodd yr aelodau y byddai'r cyntaf o dri achlysur yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2019, a fyddai'n anelu at ddwyn ynghyd ddeg person o bob cenedlaeth ar gyfer sesiwn gemau. Roedd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn canmol y prosiect yn fawr, gan ddweud y byddai'r ddwy genhedlaeth yn gallu dysgu trwy weithgareddau hwyl.

Eglurodd y cynrychiolydd y byddai gwaith allgymorth yn cael ei wneud yn y dyfodol i sefydlu grŵp ar gyfer pobl ifainc 11–14 oed. Cafodd yr Aelodau wybod am waith a oedd wedi'i wneud ar y cyd â'r ysgolion lleol i nodi a oes angen grŵp i dargedu'r ystod oedran iau, ac nid y rheiny sy'n gadael gofal yn unig.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Daniels am adroddiad mor gadarnhaol, gan ddweud y byddai'n edrych ymlaen at ddiweddariadau pellach yn y dyfodol agos. **PENDERFYNODD** Aelodau gydnabod yr adroddiad.

## 57 Darpariaeth Gofal Plant Gofrestredig - Diweddariad

Cyflwynodd Rheolwr Cyflawni Gofal Plant yr adroddiad, gan roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am leoliadau gofal plant cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned.

Eglurodd y swyddog fod nifer o ddarparwyr gofal plant wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ac mae chwech o'r rhain yn cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol. Cafodd yr Aelodau wybod fod tri o'r darparwyr i fod i gael eu harolygu o fewn y 12 mis nesaf a bod dau arolwg wedi eu cynnal yn ddiweddar, un yn lleoliad Gofal Plant Dechrau'n Deg Tylorstown a'r llall ym Meithrinfa Ddydd a Lleoliad Gofal Plant Dechrau'n Deg Pontypridd. Roedd y ddau adroddiad yn gadarnhaol, yn amlygu arweinyddiaeth dda ac yn dangos bod yr argymhellion wedi cael eu gweithredu neu yn y broses o gael eu gweithredu.

Cafwyd trafodaethau ynghylch defnyddio'r Gymraeg ym mhob lleoliad gofal plant. Roedd yr Aelodau'n cydnabod yr angen am y gwasanaeth hanfodol yma ym mhob lleoliad. Roedd yr Aelodau wedi'u calonogi i wybod bod Hyrwyddwr y Gymraeg a Swyddog Monitro swyddogol wedi'u penodi i sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus i siarad yr iaith i safon uchel. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am ymweliad blaenorol â'r lleoliadau gofal plant cofrestredig

yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ac roedd yn falch o weld bod sylwadau wedi cael eu hystyried.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad cadarnhaol a **PHENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**58 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol**

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant yr Aelodau mai Tros Gynnal Plant Cymru (TGP) fyddai'r gwasanaeth eiriolaeth newydd yn lle'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, yn dilyn proses ail-dendro ym maes eiriolaeth gyda Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Ar ôl ystyried adroddiad cynnydd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer chwarter 4, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gydnabod y diweddariad.

**59 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**60 Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol**

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng 1 Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2019.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Yn dilyn trafodaeth hir ynglŷn â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gydnabod y diweddariad.

**61 Adroddiadau Rheoliad 73**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 73 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodedb o ddeilliannau'r arolwg a **PHENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am**

**Y Cyngorydd C Leyshon  
Cadeirydd.**